Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

20fed Hydref 2017

Annwyl Riant,

Diolchgarwch

Mae ein gwasanaeth Diolchgarwch dydd Iau nesaf, 26ain Hydref yn Eglwys Llandre. Yn ôl yr arfer, byddwn yn gwneud casgliad ar y dydd tuag at elusen o'n dewis. Eleni, rydym wedi penderfynu casglu arian tuag at The British Heart Foundation. Byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn gyrru unrhyw gyfraniadau i mewn ar y diwrnod a'u trosglwyddo i'r athrawon dosbarth. Mae yna groeso i chi fynychu'r gwasanaeth am 1:30yp.

Clwb cyn ac ar ôl ysgol

Mae ein Clwb Gofal cyn ysgol, sy'n agored i blant Derbyn i Flwyddyn 6 rhwng 8:15yb a 8:45yb, yn boblogaidd iawn gyda'r nifer sy'n mynychu'n cynyddu. Rydym yn cynnal y clwb yn neuadd yr ysgol bob bore ac nid oes angen archebu lle o flaen llaw. Gofynnwn fod y disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn gollwng eu bagiau a chotiau ayyb yn neuadd yr ysgol a chofrestru gyda staff y clwb (Mrs Matthias a Mrs Creevy). Os ydych chi (rhieni) yn awyddus i gael sgwrs gydag aelod o staff yn ystod y cyfnod hwn, mae yna groeso i chi daro i mewn i ystafell dosbarth eich plentyn i wneud hynny, a chroeso hefyd i'ch plant fynd hefo chi. Gofynnwn yn garedig eich bod yn dychwelyd eich plentyn / plant i'r clwb gofal ar ôl siarad â'r aelod staff ac nid aros yn yr ystafelloedd dosbarth. Diolch am eich cydweithrediad.

Mae ein clwb ar ôl ysgol, dan arweiniad Clwb Gofal Gogerddan, hefyd yn tyfu mewn nifer. Mae'r clwb yn rhedeg rhwng 3:30yp a 6:00yp dydd Llun i ddydd Gwener. Os oes diddordeb gennych i gofrestru eich plentyn, gallwch godi ffurflen o swyddfa'r ysgol neu gysylltu'n uniongyrchol gyda Chlwb Gofal Gogerddan ar 01970 823100.

Adran Yr Urdd

Bydd Adran Yr Urdd yn cychwyn ar **ddydd Iau** ar ôl hanner tymor, rhwng 3:30yp a 4:45yp. (Gweler yr amserlen isod) Mae'r Adran yn agored i bawb rhwng Bl. 1-6 sydd wedi ymaelodi â'r Urdd eleni. Dydy hi ddim yn rhy hwyr i ymaelodi os nad ydych chi wedi gwneud eisoes. Er mwyn ymaelodi, gofynnwn yn garedig eich bod chi'n dychwelyd £7 mewn amlen (sieciau'n daladwy i "Urdd Gobaith Cymru") gydag enw llawn, a blwyddyn ysgol eich plentyn/plant. Diolch.

Dyddiad	Adran i:
09.11.17	Bl. 4, 5 a 6
16.11.17	Bl. 1, 2 a 3
23.11.17	Bl. 4, 5 a 6
30.11.17	Bl. 1, 2 a 3
07.12.17	Bl. 4, 5 a 6
11.01.18	Bl. 1, 2 a 3
18.01.18	Bl. 4, 5 a 6
25.01.18	Bl. 1, 2 a 3
01.02.18	Bl. 4, 5 a 6
08.02.17	Bl. 1, 2 a 3
15.02.18	Bl. 4, 5 a 6

Ysgolion Iach Ceredigion

We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Eco-Sgolion

Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

20th October 2017

Dear Parent,

Harvest

Our Harvest Festival is next Thursday, 26th October in Llandre Church. As usual, we are arranging a collection for our chosen charity. We have decided to support the work of The British Heart Foundation this year, and we'd gratefully receive any donations towards this good cause. Please send in any contributions on the day and transfer the money to the class teachers. You're welcome to attend our service at 1:30pm.

Pre-school and After school clubs

Our pre-school club, which is available for pupils in Reception to Yr.6 between 8:15am and 8:45am, is very popular and growing in numbers. The club is held each morning in the school hall, and there is no need to book places beforehand. We ask that all children attending club leave their coats and bags in the school hall on arrival and register with club staff (Mrs Matthias and Mrs Creevy). If you (parents) wish to speak with a member of staff during this period, you're welcome to call in to your child's classroom to do so, and may take your child/ren with you. However, we do ask that you return the children to pre-school club in the hall if it's before 8:45am and not wait in the classrooms. Thank you for your cooperation.

Our After School Club, run by Gogerddan Childcare Ltd is also growing in popularity. The club runs between 3:30pm and 6:00pm Monday to Friday. If you're interested in registering your child, you can collect a registration form from the school office or by contacting Gogerddan Childcare directly on 01970 823100.

Adran Yr Urdd

'Adran Yr Urdd' Club starts back on **Thursday** after half term. (Please see timetable below) The 'Adran' is open to all pupils between Yr.1-6 who have paid Urdd membership this year. It's not too late to register if you haven't already done so. In order to register, please return £7 in an envelope (cheques payable to "Urdd Gobaith Cymru") with your child's full name and year group. Thank you.

Date	Adran for:
09.11.17	Yr. 4, 5 & 6
16.11.17	Yr. 1, 2 & 3
23.11.17	Yr. 4, 5 & 6
30.11.17	Yr. 1, 2 & 3
07.12.17	Yr. 4, 5 & 6
11.01.18	Yr. 1, 2 & 3
18.01.18	Yr. 4, 5 & 6
25.01.18	Yr. 1, 2 & 3
01.02.18	Yr. 4, 5 & 6
08.02.17	Yr. 1, 2 & 3
15.02.18	Yr. 4, 5 & 6

Ysgolion Iach Ceredigion

We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Eco-Sgolion